E-BWLETIN UN LLAIS CYMRU- ONE VOICE WALES E-BULLETIN

RHIFYN 3 2025 ISSUE 3

Croeso i'r - Welcome to the

# E-Bwletin - E-Bulletin

Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru
The Voice of Community and Town Councils in Wales

## Hyfforddiant / Training

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad i Ymgysylltiad Cymunedol Modiwl 8** | 19/05 | **Introduction to Community Engagement Part 1 - Module 8** |
| **Sgiliau Cadeirio - Modiwl 10** | 20/05 | **Chairing Skills - Module 10** |
| **Hanfodion Bioamrywiaeth Rhan 2 - Modiwl 26** | 20/05 | **Biodiversity Part 2 - Module 26** |
| **Cydraddoldeb a Amrywiaeth - Modiwl 14** | 20/05 | **Equality & Diversity - Module 14** |
| **Cynefino Cynghorwyr Newydd** | 21/05 | **New Councillor Induction** |
| **Ymgysylltiad Cymunedol Rhan 2 - Modiwl 13** | 21/05 | **Community Engagement Part 2 - Module 13** |
| **Cyllid Llywodraeth Leol Estynedig - Modiwl 21** | 22/05 | **Advanced Local Government Finance - Module 21** |

| | | |
|---|---|---|
| **Pecyn Cyllid a Llywodraethiant - Modiwl 24** | 22/05 | **Finance & Governance Toolkit - Module 24** |
| **Cyllid Llywodraeth Leol - Modiwl 6** | 28/05 | **Local Government Finance - Module 6** |
| **Y Cyngor - Modiwl 1** | 28/05 | **The Council - Module 1** |
| **Rheolaeth Effeithio ar Staff - Modiwl 18** | 28/05 | **Effective Staff Management - Module 18** |
| **Gwneud Ceisiadau Grant Effeithiol - Modiwl 17** | 29/05 | **Making Effective Grant Applications - Module 17** |
| **Cod Ymddygiad - Modiwl 9** | 02/06 | **Code of Conduct - Module 9** |
| **Sgiliau Cadeirio - Modiwl 10** | 03/06 | **Chairing Skills - Module 10** |
| **Y Cyngor Fel Cyflogydd - Modiwl 3** | 04/06 | **The Council as an Employer - Module 3** |

| Nodiadau Datblygu Ymarfer Newydd | New Practice Development Notes |
|---|---|
| Llenwi lleoedd gwag trwy cyfethol | Filling a Vacancy |
| Pwy sy'n gwneud beth? | Who does what? |
| A sawl un arall yma | and many more here |

Dyddiad Cau / Deadline

Mae cynnigion ar gyfer y cyfarfod Cyffredinol Blynyddol angen bod i mewn cyn 20fed o Fehefin

Motions for the Annual General Meeting must be submitted before 20th June

| Newyddion | News |
| --- | --- |

E Fwletin Chwarae Cymru

Chwarae Cymru Play Wales

Play Wales E Bulletin

---

Mae grantiau Cadwch Gymru'n Daclus Lleoedd Lleol ar gyfer Natur YN ÔL 🌸

Gwnewch rywbeth anhygoel i'ch ysgol, grŵp cymunedol neu sefydliad drwy adael i natur symud i mewn a thrawsnewidiwch eich gofod segur gyda phecyn gardd am ddim.

P'un ai eich bod eisiau:

🥕Tyfu eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun

🌼Creu gofod cymunedol gwyrdd

🦋Cefnogi bywyd gwyllt lleol a bioamrywiaeth

Mae gennym amrywiaeth o becynnau i ddewis ohonynt! Ewch i'n gwefan i ganfod mwy a gwneud cais:

2,314 o erddi wedi eu trawsnewid. Mwy o becynnau i'w rhoi i ffwrdd! - Keep Wales Tidy

Cysylltwch â rcarter@unllaiscymru.cymru i drafod a allai un o'r pecynnau gwych hyn fod yn addas ar gyfer eich Cyngor.

-

Keep Wales Tidy's Local Places for Nature grants are BACK 🌸

Do something amazing for your school, community group, or organisation by letting nature move in and transform your unused space with a free garden pack.

Whether you want to:

🥕 Grow your own fruit and veg

🌼Create a green community space

🦋 Support local wildlife and biodiversity

We've got a variety of packages to choose from! Visit our website to find out more and to apply:

👉 2,314 gardens transformed. More packs to give away! - Keep Wales Tidy

Please get in touch with rcarter@onevoicewales.wales to discuss if one of these fabulous packages may be suitable for your Council.

---

## Helpu wneud democratiaeth yng Nghymru yn fwy cynrychioliadol

**Helpwch wneud democratiaeth yng Nghymru yn fwy cynrychioliadol!**
**Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Alma Economics i archwilio sut mae ffactorau ariannol a chymdeithasol yn llunio'r ffordd mae pobl yng Nghymru yn meddwl ynghylch democratiaeth ac ymgeisio i gael eu hethol.**
**Mae Alma'n cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws, sy'n agored i bawb yng Nghymru, i gasglu mewnwelediadau ar sut mae ffactorau ariannol a chymdeithasol yn llunio cyfranogiad democrataidd.**

- **Bydd cyfweliadau'n cymryd 30 munud, a bydd grwpiau ffocws yn cymryd 1 awr – gallwch ddewis pa un sydd orau gennych**
- **Byddant yn digwydd ar-lein (gan ddefnyddio MS Teams) yn ystod mis Mai 2025**
- **Mae cymryd rhan yn gwbl gyfrinachol.**

**Gofynnir i chi am eich cefndir economaidd-gymdeithasol, eich persbectif ar wleidyddiaeth ac ymgysylltiad gwleidyddol, a sut rydych chi'n credu y gellid gwella mynediad at gyfranogiad democrataidd.**
**Pam cymryd rhan?**
**Bydd eich barn yn helpu llunio polisïau yn y dyfodol i wneud democratiaeth yn fwy cynhwysol. Ar ôl cymryd rhan, byddwch yn derbyn taleb Love2Shop gwerth £15 fel diolch am eich cyfraniad.**
**Darllenwch fwy am sut y bydd eich data yn cael ei drin yma: https://tinyurl.com/ycstxhvn**
**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu ag Alma Economics gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd.**
**Cliciwch yma i rannu eich manylion cyswllt i gymryd rhan: https://forms.office.com/e/tK2ySPqCAh**
**Dim ond nifer gyfyngedig o gyfweliadau a grwpiau ffocws y bydd Alma yn eu cynnal, ar sail y cyntaf i'r felin. Mae hyn yn golygu na fydd pawb yn cael eu dewis i gymryd rhan a derbyn y daleb £15. Os cewch eich dewis neu beidio, bydd tîm Alma yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi.**

## Help make Welsh democracy more representative

**Help make Welsh democracy more representative!**
**Alma Economics, an independent research organisation, has been commissioned by the Welsh Government to explore how socio-economic background influences people's views on democracy and standing for election.**
**They are conducting some interviews and focus groups, open to everyone in Wales, to gather insights on how financial and social factors shape democratic participation.**

- **Interviews will take 30 minutes, and focus groups will take 1 hour – you can choose which you prefer**
- **They'll take place online (using MS Teams) during May 2025**
- **Taking part is completely confidential.**

**You'll be asked about your socio-economic background, your perceptions of politics and political engagement, and how you think access to democratic participation could be improved.**
**Why take part?**
**Your views will help shape future policies to make democracy more inclusive. After taking part, you will receive a £15 Love2Shop voucher as a thank you for your contribution.**
**Read more about how your data will be handled here: https://tinyurl.com/65mwsxjp**
**If you have any questions, you can reach out to Alma Economics using the contact details provided in the Privacy Notice above.**
**Click here to share your contact details to take part: https://forms.office.com/e/tK2ySPqCAh**
**Please note, Alma will only be conducting a limited number of interviews and focus groups, on a first-come-first-served basis. This means not everyone will be selected to take part and receive the £15 voucher. Whether you are selected or not, the Alma team will contact you to let you know.**

*Gwybodaeth am ADRAN 6*

Yn dilyn ein cyfres lwyddiannus iawn o weminarau Adran 6 ym mis Ebrill mae'r diweddariad o'r 'Trosolwg Dyletswydd Adran 6' ar gael erbyn hyn yn adran Bioamrywiaeth ein gwefan.

Gan fod disgwyl i bob Cyngor Cymuned & Thref baratoi a chyhoeddi eu hadroddiadau Adran 6 erbyn diwedd 2025, byddwn yn eich cynghori i gael gafael ar yr holl adnoddau sydd ar gael ichi ar ein gwefan.

Dylai'r Adroddiad Adran 6 fanylu ar yr holl gamau a gymerwyd i 'Wreiddio ystyried Bioamrywiaeth yn holl swyddogaethau eich Cyngor' dros y tair blynedd diwethaf 2023-2025.

Hefyd, dylai Cynghorau fod yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth newydd i baratoi ar gyfer y cylch adrodd nesaf.

I'ch cefnogi mae Un Llais Cymru yn cynnig adnoddau a hyfforddiant amrywiol i helpu Cynghorau i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol hwn.

Rydym yn darparu:
Templedi Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth A6
Cyngor ar prosiectau ar gyfer natur
Ymweliadau safle

🌟 Hyfforddiant Bioamrywiaeth 🌟
Mae gennym 3 modiwl hyfforddiant newydd ar gael.
Mae Modiwl 25 + 26 yn rhoi dealltwriaeth i Gynghorwyr o hanfodion Bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a'r camau adferiad natur y gellir eu cymryd. Bydd cwblhau'r cwrs 2 ran hwn yn helpu Cynghorau i ysgrifennu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth cadarn.

**Information on SECTION 6**

Following our very successful series of Section 6 webinars in April the updated 'Section 6 Duty Overview' is now available on the Biodiversity section of our website.

The Section 6 Report should detail all actions taken to 'Embed the consideration of Biodiversity' into all the functions of your Council over the last 3 years 2023-2025.

Councils should also be producing a new Biodiversity Action Plan in preparation for the next reporting round.

One Voice Wales offers a variety of resources and training to help Councils fulfil this statutory requirement.

We provide:
S6 Report and Biodiversity Action Plan Templates on our website
Advice on nature projects.
Site visits

🌟 Biodiversity Training 🌟

We have 3 new training modules available. Module 25 + 26 Gives Councillors an understand of the basics of biodiversity and ecosystem resilience and the nature recovery actions that can be implemented. Completing this 2 part course will help Councils write robust Biodiversity Action Plans.

continued below...

Mae Modiwl 27 yn ceisio cynorthwyo Cynghorau i gynllunio a rheoli prosiectau Natur yn effeithiol.
Ein Dyddiadau Hyfforddiant Nesaf yw:
Modiwl 25

13.5.25 (Ambell le ar ôl!)
11.6.25

Modiwl 26

20.5.25
18.6.25

Modiwl 27

[Archebwch Hyfforddiant yn awr]

12.5.25
4.6.25

**Dogfennau Arweiniol**
[Canllaw Gweithredu ar gyfer Adferiad Natur] ar gyfer Cynghorau Cymuned & Thref – yn seiliedig ar ein '5 Piler camau adferiad Natur', ac mae'n ategu at Fodylau 25 & 26.
[Bioamrywiaeth & cheisiadau Cynllunio Lleol] – Bydd hyn rhoi gwybod i Gynghorau Cymuned & Thref sut i wreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth wrth ymateb i geisiadau cynllunio o bob lliw a llun.
[Tyfu Cymunedol] ar gyfer Cynghorau Cymuned & Thref - Canllaw i sefydlu gardd Gymunedol.
**Rydym hefyd yn cynnal** [gweminarau rheolaidd] ar bynciau o bob math, felly byddwch yn barod am yr un nesaf.

**Os hoffech drafod sut all eich Cyngor gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 yn fwy effeithiol neu os oes angen unrhyw help neu arweiniad arnoch, cofiwch fod pob croeso ichi gysylltu â mi.**

rcarter@onevoicewales.wales

**Module 27 aims to assist Councils to plan and manage nature projects effectively.**
**Our Next Training Dates are:**
**Modiwl 25**

**13.5.25 (Last few places left!)**
**11.6.25**

**Modiwl 26**
**20.5.25**
**18.6.25**

**Modiwl 27**

[Book Training now]
**12.5.25**
**4.6.25**

**Guidance Documents**
[Nature Recovery Action Guide] for C&TCs – Based on our '5 Pillars of Nature Recovery Actions' and compliments Modules 25 & 26.
[Biodiversity & Local Planning applications] – This will advise C&TCs on how to embed biodiversity considerations when responding to planning applications of all scales.
[Community Growing for C&TCS] - A guide to setting up a community garden.

**We also run** [regular webinars] on a variety of topics, so keep an eye out for the next one.

**If you would like to discuss how your Council can meet the Section 6 Duty more effectively or if you require any help or guidance, please do not hesitate to get in touch with me.**
rcarter@onevoicewales.wales

# SWYDDI /JOBS

**Swydd wag gydag Un Llais Cymru - Swyddog Bioamrywiaeth Gogledd Cymru**
**Wele'n atodedig wybodaeth am swydd wag a allai fod o ddiddordeb.**

**Ymunwch â'n tîm - Un Llais Cymru**
**Dyddiad Cau: Ganol nos ar y 23ain Mai 2025**

**Vacancy with One Voice Wales - North Wales Biodiversity Officer**
**Please find attached details of a vacancy that might be of interest.**

**Closing Date: Midnight on 23rd May 2025**
**Join our Team - One Voice Wales**

**Penodiadau Cyhoeddus**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi darpariaeth y flaenoriaeth Weinidogol allweddol hon ar gyfer Cymru. Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i ganfod unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swyddi bwrdd.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Cyllid Aelod Annibynnol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Aelod Annibynnol Cyffredinol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre –
Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 30/05/2025 am 1600.

Bwrdd Chwaraeon Cymru – Penodi Aelodau (hyd at pump)
Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 02/06/25 am 16:00.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Penodi tri Aelod -Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 12/06/2025 am 16:00.

**Public Appointments**

The Welsh Government is committed to improving the diversity of public appointments in Wales.

The Welsh Government Anti-racist Wales Action Plan and Diversity and Inclusion Strategy for Public Appointments sets out a vision and actions aimed at supporting delivery of this key Ministerial priority for Wales.
We are keen to work with our external partners to build a pipeline of individuals who are interested in applying for a board position.

To view the latest advertisements for public appointments in Wales, please visit:

Independent Member Finance to the Velindre University NHS Trust - Welsh Government

Independent Member Generic to the Velindre University NHS Trust - Welsh Government
**Closing date for the above appointments is** 30/05/2025 at 1600.

Sport Wales Board – Appointment of Members (up to five) - Welsh Government
**Closing date for the above appointments is** 02/06/25 at 16:00.

Pembrokeshire Coast National Park Authority - Appointment of three Members - Welsh Government (Cais)
Closing date for the above appointments is 12/06/2025 at 16:00.

# HYSBYSEB




## HYSBYSEBWCH GYDA NI....

# YN EIN BWLETINAU RHEOLAIDD



Mae 731 o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, sy'n cynrychioli'r haen hon o lywodraeth sydd agosaf at y bobl. Mae dros 92% o Gynghorau Cymuned a Thref yn aelodau o Un Llais Cymru, y corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

**Cyfleoedd Masnachol i hysbysebu gydag Un Llais Cymru.**

**Rydym yn cynnig cyfraddau cystadleuol a chyfleoedd i gysylltu â'n haelodau drwy:**

- **Cyfeiriadur Cyflenwyr ar ein gwefan**
- **Digwyddiadau ar-lein neu wyneb i wyneb**
- **Marchnata drwy E-bost gan gynnwys bwletinau deufisol i Gynghorau Cymru.**

**YMWELWCH Â'N GWEFAN NEWYDD**

Un Llais Cymru
One Voice Wales

Os ydych yn gwybod am unrhyw gwmnïau neu sefydliadau Cymreig neu Saesneg a hoffai hyrwyddo eu gwasanaethau neu gynnyrch drwy Un Llais Cymru, rhowch wybod i ni neu gofynnwch iddynt gysylltu â Maria Mulcahy drwy e-bost: **mmulcahy@unllaiscymru.cymru** neu ffoniwch **01269 595400**

## Cysylltwch nawr!!

ADVERTISEMENT




ADVERTISE WITH US.....

## IN OUR REGULAR E-BULLETINS



There are 731 Community and Town Councils in Wales, representing this tier of government closest to the people. Over 92% of Community and Town Councils are members of One Voice Wales, the national representative body for Community and Town Councils in Wales.

**Commercial Opportunities to advertise with One Voice Wales.**

**We offer competitive rates and offer opportunities to contact our members through:**

- **Supplier Directory on our new website**
- **Virtual or in person events**
- **Email marketing including bi-monthly e-bulletins to all Councils across Wales**

**VISIT OUR NEW WEBSITE**

Un Llais Cymru
One Voice Wales

If you know of any Welsh or English companies or organisations that would like to promote their services or products through One Voice Wales, please let us know or ask them to contact Maria Mulcahy via email: **mmulcahy@onevoicewales.wales** or telephone **01269 595400**

**Get in touch now!!**